Canllawiau Athrawon

www.barddoniaeth.cymru

1. Cyflwyniad

2. Y Themâu a'r Cerddi

3. Canllawiau defnyddio'r wefan

1. Cyflwyniad

Adnodd ymarferol yw'r wefan hon ar gyfer cyflwyno a dadansoddi barddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 3. Mae yma 40 o gerddi o dan 8 thema, wedi eu dewis i geisio sicrhau trawsdoriad eang o feirdd, pynciau, themâu, agweddau ac arddulliau, gan gydbwyso'r angen am ddeunydd cyfoes gyda chydnabyddiaeth fod rhywbeth i'w ddysgu o hyd yng nghwmni'r hen ffefrynnau.

Bwriad yr adnodd yw cefnogi Rhaglen Astudio Llafaredd a Darllen y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd diwygiedig a'r Cwricwlwm Cymraeg drwy ddatblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau yn ogystal ag ymateb i'r hyn a ddarllenwyd. Mae'r adnodd yn eistedd ar wefan Hwb ac hefyd ar gael ar www.barddoniaeth.cymru.

Yn ôl y dymuniad, mae'r cerddi wedi eu grŵpio fesul thema, ac er hwylustod o fewn pob thema mae cerddi sy'n perthyn i ddwy haen, y naill yn fwy heriol na'r llall. Gweler isod am restr o'r cerddi a'u haenau. Y gwir yw, serch hynny, bod modd cyflwyno'r cerddi drwy'r trwch. Wedi'r cwbwl, bydd athrawon unigol yn adnabod anghenion eu dosbarthiadau ac yn medru cymhwyso yn ôl yr angen. Mae hyn hefyd yn wir am natur y tasgau sy'n cael eu hawgrymu: mannau cychwyn yw'r rhain yn y bôn, nid gorchmynion a fydd yn mygu creadigrwydd yr athrawon hynny sy'n gweld cyfleoedd amgen yn y cerddi a'r deunydd atodol, yn ôl galw eu disgyblion ac yn ôl galw eu meysydd llafur penodol.

Bydd y tasgau rhyngweithiol wedyn yn rhai mwy caeëdig, gan gynnig adloniant o fath gwahanol, yn ogystal â'r peth prin hwnnw mewn barddoniaeth: atebion cywir neu anghywir.

Mae'n deg nodi na fydd angen gwneud mwy na dim ond darllen rhai o'r cerddi hyn gyda'r disgyblion, gan eu mwynhau nhw am eu bod nhw'n bethau difyr neu eiconig, nid am eu bod nhw'n destunau

astudiaeth bellach. Neu o bosib bydd athrawon yn awyddus i'w disgyblion ddysgu rhai o'r cerddi byrion ar eu cof, e.e. yr englynion. Neu hyd yn oed rhannau ohonyn nhw.

Gyda golwg ar y dadansoddol, serch hynny, ceir yn yr adnoddau athrawon ddwy enghraifft o werthfawrogiad cryno, un ar gerdd haen 1 a'r llall ar gerdd haen 2. Ceir hefyd werthfawrogiad cryno yn cymharu dwy gerdd o'r un thema.

Fel y gwelir yn y fideos a'r tapiau sain, mae beirdd a barddoniaeth yn bethau byw. Ac mewn perfformiadau cyhoeddus neu ymweliadau dosbarth gan feirdd ar hyd a lled y wlad, mae cerddi'n siarad â disgyblion yn y modd mwyaf uniongyrchol posib: rhai'n cyffroi, rhai'n goglais, rhai'n herio ac anesmwytho; rhai yn ennyn ymateb yn y man a'r lle, rhai'n destun myfyrio mwy preifat ac estynedig – ond y cwbwl yn ddifyrrwch o ryw fath.

Gobeithio bydd y wefan hon yn ein hatgoffa o'r difyrrwch hwnnw, yn ogystal â bod yn fodd i'r disgyblion ddod yn fwy hyderus yn y modd y maen nhw'n mynegi eu gwerthfawrogiad o farddoniaeth yn fwy cyffredinol.

2. Y Themâu a'r Cerddi

Gwelir isod restr o'r cerddi, fesul thema a haen (lle mai 2 yw'r haen fwyaf heriol). Nodir hefyd y cyfrolau lle cyhoeddwyd y cerddi, pan fo hynny'n berthnasol.

Gwladgarwyr:

1 'Pethau Bychain' (Mei Gwynedd) – Mei Gwynedd

'Gwisg (Ewros 2016)' (Emyr Davies)

2 'Ray Gravell' (Gwyn Thomas) – Gwyn Thomas, *Murmuron Tragwyddoldeb a Chwningod Tjioclet* (Cyhoeddiadau Barddas, 2010)

'Hen Wlad fy Nhadau' (Evan James)

'Myn Duw, Mi a Wn y Daw!' (Dafydd Iwan) – Dafydd Iwan

Ieuenctid:

1 'Snog' (Caryl Parry Jones) - *Caneuon y Coridorau* (Gwasg Carreg Gwalch/CBAC, 2005)

'Brys' (Ken Griffiths) – Idris Reynolds (gol.), *Y Grefft o Dan-y-groes* (Gwasg Carreg Gwalch, 2005)

2 'Bws Ysgol' (Gwion Hallam) - *Caneuon y Coridorau* (Gwasg Carreg Gwalch/CBAC, 2005)

‘Ar y Ffôn’ (Iwan Llwyd) – Myrddin ap Dafydd (gol.), *Pac o Feirdd* (Gwasg Carreg Gwalch, 2002)

‘Linda Waz Ere’ (Aled Lewis Evans) – Aled Lewis Evans, *Sglefrfyrddio* (Cyhoeddiadau Barddas, 1994)

Newid:

1 ‘Ar Gyrion y Dre’ (Rhys Iorwerth) – Rhys Iorwerth, *Un Stribedyn Bach* (Gwasg Carreg Gwalch, 2014)

‘Google Mars’ (Hywel Griffiths) - Hywel Griffiths, *Llif Coch Awst* (Cyhoeddiadau Barddas, 2017)

2 ‘Aros a Mynd’ (Ceiriog) – Aled Lewis Evans (gol.) *Cerddi Clwyd* (Gomer, 2004)

‘Cysgod’ (Sian Owen) – Annes Glyn (gol.) *Darn o'r Haul: Cerddi Sian Owen* (Cyhoeddiadau Barddas, 2015)

‘Fesul Un’ (Llŷr Gwyn Lewis) - *Pigion y Talwrn [13]* (Cyhoeddiadau Barddas, 2016)

Perthyn:

1 ‘Y Deg Gorchymyn’ (Mererid Hopwood) - *Caneuon y Coridorau* (Gwasg Carreg Gwalch/CBAC, 2005)

‘Ar lan yr afon’ (Tudur Dylan Jones) - *Geiriau Bach Chwareus* (Gwasg Carreg Gwalch, 2016)

2 ‘Tro Gwael’ (Gwennan Evans) - *Pigion y Talwrn [13]* (Cyhoeddiadau Barddas, 2016)

‘Nyth’ (Roger Jones) - *Y Flodeugerdd Englynion Newydd* (Cyhoeddiadau Barddas, 2009)

‘Grisiau’ (Mari George) - *Pigion y Talwrn [13]* (Cyhoeddiadau Barddas, 2016)

Ffrindiau:

1 ‘Ap’ (Anni Llŷn) – Anni Llŷn, *Dim Ond Traed Brain* (Gomer, 2016)

‘Ci Defaid’ (Idris Reynolds) – Idris Reynolds, *Draw Dros y Don* (Cyhoeddiadau Barddas, 2004)

2 ‘Gweld Hen Ffrind’ (Gwion Hallam) - *Caneuon y Coridorau* (Gwasg Carreg Gwalch/CBAC, 2005)

‘Cysylltu’ (Mei Mac) - *Caneuon y Coridorau (*Gwasg Carreg Gwalch/CBAC, 2005)

‘Hunlun’ (Gruffudd Owen) – Gruffudd Owen, *Hel Llus yn y Glaw* (Cyhoeddiadau Barddas, 2015)

Natur:

1 ‘Y Gerdd Werdd’ (Gwyneth Glyn) – Gwyneth Glyn, *Cerddi’n Cerdded* (Gomer, 2008)

‘Cadno Coch’ (Eurig Salisbury) - Eurig Salisbury, *Sgrwtsh* (Gomer, 2011)

‘Help’ (Casia Wiliam) – Casia Wiliam / Bardd Plant Cymru, 2018

2 ‘Sŵn’ (T. Llew Jones) – Tudur Dylan Jones (gol.), *Trysorfa T. Llew [T. Llew Jones]* (Gomer, 2004)

‘Garddwyr Oll’ (Karen Owen) – Karen Owen, *Yn Fy Lle* (Cyhoeddiadau Barddas, 2006)

‘Tân yn y Dŵr’ (Einir Jones) - *Blodeugerdd o Farddoniaeth Gymraeg yr Ugeinfed Ganrif* (Gomer/Barddas, 1987)

Teulu:

1 'Taid' (Dic Jones)

'Ward y Plant' (Tudur Dylan Jones) - Tudur Dylan Jones , *Adenydd* (Cyhoeddiadau Barddas, 2001)

2 'Croen' (Sian Northey) – Sian Northey, *Trwy Ddyddiau Gwydr* (Gwasg Carreg Gwlach, 2013)

'Annibendod' (Hywel Griffiths) – Hywel Griffiths, *Llif Coch Awst* (Cyhoeddiadau Barddas, 2017)

Chwaraeon:

1 'Dydd Iau Chwaraeon' (Mererid Hopwood) - *Caneuon y Coridorau (*Gwasg Carreg Gwalch/CBAC, 2005)

'Chwaraeon' (Mari Lövgreen) - *Geiriau Bach Chwareus* (Gwasg Carreg Gwalch, 2016)

2 'Ewro 2016' (Llion Jones) – Llion Jones, *Bardd ar y Bêl* (Cyhoeddiadau Barddas, 2016)

Detholiad o 'Cân Shane' (Myrddin ap Dafydd) – Myrddin ap Dafydd, *Bore Newydd* (Gwasg Carreg Gwalch, 2008)

'Hillsborough, 1989' (Alan Llwyd) – Alan Llwyd, *Ffarwelio â Chanrif* (Cyhoeddiadau Barddas, 2016)

3. Canllawiau defnyddio'r wefan

- Mae'r gwaith ar bob cerdd i'w ddarganfod o dan y themâu perthnasol. O glicio ar thema benodol ar y dudalen gartref (Hafan), ceir dewislen newydd ar gyfer y cerddi yn y thema honno.

- Mae'r adrannau canlynol i'w cael ar gyfer pob cerdd:
    - CERDD: copi o'r gerdd, yn cynnwys recordiad llafar fel y gellid darllen a gwrando ar yr un pryd.
    - CRYNODEB: crynodeb fer o gynnwys y gerdd.
    - BARDD: gwybodaeth am y bardd.
    - TŴLBOCS GWEITHGAREDDAU: cyfres o weithgareddau rhyngweithiol ar-lein yn ymwneud â'r gerdd.
    - TASGAU: tasgau estynedig amrywiol yn seiliedig ar y gerdd.

- Ceir adrannau ychwanegol ar gyfer rhai o'r cerddi, megis fideos YouTube neu luniau perthnasol.

- Mae gwaith ar 12 o'r cerddi yn cynnwys fideos newydd gwerthfawr gan y beirdd eu hunain. Ar gyfer pob un o'r cerddi hyn mae fideo o'r bardd yn darllen y gerdd (DARLLENIAD), fideo o'r bardd yn trafod y gerdd (FIDEO) a fideo o'r bardd yn cyflwyno ei hun (BARDD). Yn ddibynnol ar eich cysylltiad rhyngrwyd, efallai y bydd angen rhoi amser i'r fideos hyn lwytho

yn iawn er mwyn iddynt chwarae yn llwyddiannus. Gellir wrth gwrs ehangu'r fideos i lenwi'r sgrin. Y cerddi sy'n cynnwys yr adrannau ychwanegol hyn yw:

- 'Bws Ysgol' gan Gwion Hallam
- 'Ar Gyrion y Dre' gan Rhys Iorwerth
- 'Fesul Un' gan Llŷr Gwyn Lewis
- 'Google Mars' gan Hywel Griffiths
- 'Tro Gwael' gan Gwennan Evans
- 'Grisiau' gan Mari George
- 'Hunlun' gan Gruffudd Owen
- 'Gweld Hen Ffrind' gan Gwion Hallam
- 'Cadno Coch' gan Eurig Salisbury
- 'Help' gan Casia Wiliam
- 'Croen' gan Sian Northey
- 'Annibendod' gan Hywel Griffiths

Mwy o wybodaeth am pob adran:

- CERDD: Ceir yma gopi o'r gerdd yn ei chyfanrwydd a recordiad llais o unai'r bardd ei hun neu Ceri Wyn Jones yn darllen y gerdd, fel bod modd darllen a gwrando arni ar yr un pryd. Bydd y recordiad llais yn parhau i chwarae hyd yn oed os ydych yn symud i adran arall o'r un gerdd (e.e. i'r adran 'Crynodeb' neu 'Bardd'). Ar gyfer pob cerdd mae rhai geirfa penodol mewn lliw gwahanol, a gellir dal y lygoden dros y gair er mwyn gweld ystyr neu eglurhad pellach. Fe geir mwy o wybodaeth eto o glicio ar y gair neu ar yr arwydd + sy'n ymddangos wrth ddal y lygoden. Bydd yn rhaid clicio i gael gwybodaeth am rai o'r geiriau gan bod yr ystyron yn rhy hir i ymddangos wrth ddal y lygoden dros y gair yn unig. Nodir hyn gyda'r arwydd (...). Ceir restr gyflawn o'r geiriau a'r ystyron hyn yn yr adnoddau athrawon.

- CRYNODEB: Paragraff byr yn cyflwyno'r gerdd.

- BARDD: Mae yma lun a gwybodaeth am y bardd, weithiau ar ffurf pwyntiau bwled, dro arall fel paragraff neu frawddegau hirach. Ar gyfer 12 o'r cerddi, ceir fideo newydd gan y bardd yn cyflwyno ei hun.

- TŴLBOCS GWEITHGAREDDAU: Ar gyfer pob cerdd ceir cyfres o weithgareddau rhyngweithiol, gyda'r nod o ehangu gwybodaeth y disgyblion am gynnwys a nodweddion arddull y gerdd. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys:

    - <u>Gweithgareddau Uwcholeuo</u> : Mae'n bwysig cofio bod yn union wrth uwcholeuo, a dim ond uwcholeuo'r gair, geiriau neu lythrennau perthnasol yn unig, heb unrhyw atalnodau.
    - <u>Gweithgareddau rhoi mewn trefn</u> : Gellir newid y drefn drwy lusgo'r atebion i fyny neu i lawr.

- Croeseiriau : Nid yw'r gweithgareddau croeseiriau yn rhoi'r geiriau sydd angen eu darganfod gan fod hyn yn aml yn rhan o'r weithgaredd. Gellir clicio'r botwm 'Cymorth' i weld y geiriau hynny os oes angen.
- Gweithgareddau Paru : Fel yn achos y gweithgareddau rhoi mewn trefn, gellir llusgo'r opsiynau ar y chwith i fyny ac i lawr er mwyn cyfateb â'r pâr cywir ar y dde.
- Anagramau
- Cwestiynau : Mae'n rhaid ateb y cwestiwn, clicio 'Cadarnhau'ac yna clicio 'Nesaf' i symud i'r cwestiwn nesaf os yw hynny'n berthnasol. Ni fydd y cyfrifiadur yn rhoi'r ateb cywir petai'r ateb yn anghywir. Bydd cyfle ar ôl gorffen y cwestiynau penodol hynny i roi cynnig arall arni.

TASGAU: Ar gyfer pob cerdd ceir amrywiaeth o dasgau yn ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â chynnwys y gerdd. Mae'r adran hyn yn cynnwys cymysgedd o dasgau:

- Trafod a Dadansoddi – ar lefel unigol, pâr, grŵp neu ddosbarth
- Ymchwilio, e.e. ymchwilio i hanes penodol
- Creadigol, e.e. llunio cerddi, arlunwaith, cywaith dosbarth
- Perfformio, e.e. caneuon, areithiau
- Ysgrifennu, e.e. blog, mynegi barn, ffuglen, llythyrau, erthyglau, portreadau, negeseuon, sgript, disgrifiadol
- Digidol, e.e creu ffilm a recordio llais
- Llafar, e.e. dysgu englynion ar y cof.

Gellir lawrlwytho taflen unigol gyda'r holl dasgau ar gyfer cerdd benodol (PDF neu Word) ar waelod y dudalen. Gellir hefyd lawrlwytho'r holl dasgau ar gyfer thema benodol yn yr adnoddau athrawon.

Ceir taflenni gwaith ychwanegol (PDF) ar gyfer rhai o'r tasgau hyn, megis fframweithiau neu dempledi arbennig ar gyfer gwneud y dasg. Gellir lawrlwytho'r taflenni gwaith unigol hyn yn yr adran dasgau o dan pob cerdd, neu fesul thema yn yr adnoddau athrawon.

Fel y nodwyd eisoes, mannau cychwyn yw'r rhain yn y bôn, ac mae croeso i athrawon eu defnyddio fel y gwelir orau.

Eraill:

GWEDD GYFLWYNO: O glicio ar y botwm 'Gwedd Gyflwyno' yn y ddewislen ar frig y dudalen gellir gweld pob cerdd a'r adrannau unigol yn fwy ar y sgrin. Bwriad yr adnodd hwn yw gwneud y wybodaeth yn fwy hygyrch ar sgrin fawr o flaen dosbarth. NODIR: nid yw'r wedd gyflwyno yn cynnwys y gweithgareddau rhyngweithiol.

Gellir newid i'r wedd gyflwyno ar unrhyw adeg drwy glicio ar y botwm hwn yn y gornel dde. Cliciwch arno eto i fynd yn ôl i'r wedd arferol.

NODWEDDION ARDDULL: Ceir yma ddisgrifiad ac enghreifftiau o 11 nodwedd arddull : Cyffelybiaeth/Cymhariaeth; Trosiad; Personoli; Ansoddeiriau; Cyflythrennu; Gwrthgyferbyniad; Synhwyrau; Onomatopoeia; Ailadrodd; Cwestiwn rhethregol; Cynghanedd.

Gellir lawrlwytho'r disgrifiadau a'r enghreiffitau fel dogfen Word neu PDF yn yr adnoddau athrawon.

ADNODDAU ATHRAWON: Yn ychwanegol at y ddogfen ganllawiau hon, mae'r adnoddau athrawon ar gyfer yr adnodd hwn yn cynnwys:

- Tair enghraifft o werthfawrogiadau cryno, un ar gerdd haen 1, un ar gerdd haen 2 ac un yn cymharu dwy gerdd o'r un thema.
- Nodweddion arddull i'w lawrlwytho fel dogfen Word neu PDF.
- Ar gyfer pob thema: copi o'r cerddi (Word/PDF), copi o'r holl dasgau (PDF – gellir eu cael fel dogfennau Word gyda phob cerdd yn unigol), copi o'r taflenni gwaith ychwanegol (PDF) a rhestr o'r geirfa a'u hystyron ar gyfer pob cerdd (Word/PDF).

Os oes unrhyw broblem yn codi gyda'r adnodd hwn, cysylltwch â ni yn Atebol, unai ar y ffôn, 01970 832172 neu drwy e-bost, ffion@atebol.com.